THE SCHOOL AT THE HEART OF WALES

# CYLCHLYTHYR

YSGOL CALON CYMRU

15fed MAI 2023



## Cwricwlwm ACRh

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Fel rhan o addysg eich plentyn yn Ysgol Calon Cymru rydym yn hyrwyddo lles a datblygiad personol trwy gwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) cynhwysfawr. Mae'r maes pwnc hwn yn rhoi i bobl ifanc y wybodaeth, dealltwriaeth, agweddau a sgiliau ymarferol sydd eu hangen i fyw bywydau diogel, iach,

*Campws Llanfair-ym-Muallt, Ffordd y Coleg, Llanfair-ym-Muallt, Powys, LD2 3BW*
*Builth Wells Campus, College Road, Builth Wells, Powys, LD2 3BW*
*Ffôn / Phone 01982 553292*

*Campws Llandrindod, Heol Dyffryn, Llandrindod, Powys, LD1 6AW*
*Llandrindod Wells Campus, Dyffryn Road, Llandrindod Wells, Powys LD1 6AW*
*Ffôn / Phone 01597 822992*

WAS in partnership with NATIONAL CHILDREN'S BUREAU Wellbeing Award for Schools 2022-2025

cynhhyrchiol a diwallu eu potensial yn llawn. Mae ACRh yn ofyniad statudol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac mae'n orfodol i bob dysgwr 3 i 16 mlwydd oed.

Mae hyn yn golygu y byddwn yn adolygu ein cwricwlwm a pholisi ACRh er mwyn bod yn siŵr bod ein darpariaeth yn briodol i'n disgyblion ar sail:

- Oed
- Aeddfedrwydd corfforol ac emosiynol
- Cefndiroedd crefyddol a diwylliannol
- Anghenion addysgol arbennig ac anableddau

Addysgir ACRh drwy ddull ysgol gyfan a chaiff ei fonitro a'i adolygu'n rheolaidd gan y staff a'r corff llywodraethu. Mae'r addysgu i gyd yn digwydd mewn amgylchedd dysgu diogel ac wedi ei danategu gan ethos a gwerthoedd ein hysgol.

Fel cymuned ysgol, rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partnersiaeth gyda rhieni a'r rhanddeiliaid i gyd sy'n gysylltiedig ac felly mae angen eich adborth arnom i'n helpu i wneud hyn.
Hoffem eich gwahodd i:

- Fanteisio ar y cyfle i edrych ar ein polisi drafft a bwriadau cwricwlwm drafft
- Cwblhau holiadur er mwyn cael eich adborth

Gellir cyrchu'r wybodaeth hyn ar ein gwefan trwy'r ddolen ganlynol:

https://www.ysgolcalon.cymru/relationships-and-sexuality-education-consultation

I gael mwy o wybodaeth am y fframwaith ACRh, ewch i Cwricwlwm i Gymru: Y Cod Addysg Cyd-berthynas a Rhywioldeb (ACRh)/ LLYW.CYMRU

Yn gywir,

Rhiannon Rhys-Jones

Pennaeth Campws, Campws Llandrindod